## P-04-324 Dywedwch Na i Tan 8 - Mae ffermydd gwynt a llinellau pŵer foltedd uchel yn difetha ein cymuned

### Geiriad y ddeiseb

Mae 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)' gan Lywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chanllawiau sydd, heb amheuaeth, yn arwain at halogi cefn gwlad brydferth canolbarth Cymru. Bydd dilyn y canllawiau hyn yn difetha ein tirwedd brydferth; yn cynyddu'r perygl i iechyd a achosir gan belydriad electromagnetig; yn niweidio twristiaeth, sef un o'r prif sectorau cyflogaeth; yn datbrisio adeiladau ac yn achosi difrod sylweddol i'r amgylchedd. Pan gyhoeddwyd y nodyn cyngor technegol, a elwir yn TAN 8 yn aml, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005, nid oedd y boblogaeth leol yn amgyffred i ba raddau y byddai'n effeithio ar drigolion canolbarth Cymru. Bydd Nodyn Cyngor Technegol 8 yn caniatáu i gannoedd o dyrbinau gwynt gael eu hadeiladu yn ein cymunedau.

O ganlyniad i adeiladu'r ffermydd gwynt hyn, bydd yn rhaid i'r Grid Cenedlaethol osod llinellau trawsyrru pŵer i gludo'r pŵer i le y bydd ei angen, er ein bod yn cydnabod nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhan o'r broses o benderfynu gosod y llinellau pŵer hyn.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag adolygiad sylweddol o bolisi TAN 8 a fydd yn cynnwys mwy o ymgynghori â'r cyhoedd.

**Linc i'r ddeiseb:**
[http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s1270/P-04-324%20Say%20no%20to%20TAN8.html?CT=2](http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s1270/P-04-324%20Say%20no%20to%20TAN8.html?CT=2)

**Cynigwyd gan:** John Day
**Nifer y llofnodion:** 3,249. Casglwyd dros 13,500 o lofnodion gan ddeisebau cysylltiedig.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Bydd y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.